**LC1120**

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
| --- | --- |

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2005

Diben y Rheoliadau yma yw diwygio ymhellach ar Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd am Gyffuriau a Chyfarpar) (Cymru) 2001. Yn benodol, maen nhw’n gostwng amrywiaeth o ffioedd am bresgripsiynau, ac yn cyflwyno cysyniad "presgripsiynau Cymreig". Mae’r Rheoliadau’n gwneud darpariaeth ychwanegol hefyd ar gyfer y rhai sydd â hawl i gael presgripsiynau am ddim, ac ar gyfer carcharorion.

### Rheol Sefydlog 11.7

Does dim pwyntiau wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7

### Sylwadau

Mae’r rheoliad 3(1) newydd (sy’n cael ei fewnosod yn Rheoliadau 2001 gan reoliad 4 o’r Rheoliadau cyfredol) yn darparu ar gyfer y symiau sydd i’w codi ar gleifion mewn perthynas â ffurflenni presgripsiwn unigol, ac yn gwahaniaethu rhwng "ffurflen bresgripsiwn Gymreig" (sy’n gymwys ar gyfer y ffioedd is) a "ffurflen bresgripsiwn gyfatebol" (y mae’r ffioedd ar ei chyfer i’w codi yn ôl y gyfradd sydd wedi’i phennu yn y rheoliadau cyfatebol ar gyfer Lloegr). Mae "ffurflen bresgripsiwn Gymreig" a

"ffurflen bresgripsiwn gyfatebol" yn dermau sydd wedi'u diffinio.

Yn y rheoliad 3(3) newydd, ceir gwahaniaeth cyfatebol rhwng "swp-ddyroddiad" a "swp-ddyroddiad cyfatebol" mewn perthynas â phresgripsiynau amlroddadwy, ond dim sôn am Gymreig. Dydy diffiniad "swp-ddyroddiad" ddim yn cynnwys cyfyngiad o'r fath, ond mae'n cynnwys croesgyfeiriad at Reoliadau Contractau GMS sy'n gymwys mewn perthynas â Chymru yn unig. Y bwriad felly yw bod y gwahaniaeth yn 3(3) i fod i weithio yn yr un ffordd â'r gwahaniaeth yn 3(1), ond byddai defnyddio "swp-ddyroddiad Cymreig" mewn ffordd gyfatebol wedi gwneud y gwahaniaeth yn gliriach.

Cafodd Cynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor weld fersiwn cynharach o'r Rheoliadau, a nodwyd nifer fach o bwyntiau sydd wedi cael sylw yn y fersiwn sydd wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor.

## Glyn Davies AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 5 Gorffennaf 2005